Cyngor Celfyddydau Cymru

# Hadu'r Dyfodol 2022

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cynnwys


Cyngor Celfyddydau Cymru yn lansio'r rhaglen **Hadu'r Dyfodol** 2

Meini prawf dewis 2

Rhaid bod gennych: 2

Rhaid ichi allu: 3

Pwy all ymgeisio? 4

Rhaid bod gennych: 4

Sut i ymgeisio 4

Hygyrchedd 4

Pa gwestiynau fydd? 5

Angen cysylltu? 6

Ffyrdd o gysylltu 6

## Cyngor Celfyddydau Cymru yn lansio'r rhaglen *Hadu'r Dyfodol*

Rhaglen ddatblygu yw **Hadu'r Dyfodol.** Bydd yn fodd i artistiaid a chynhyrchwyr hen a newydd sydd heb fod yng Ngŵyl Ymylol Caeredin o'r blaen ddatblygu gwaith i'w ddangos yno. Bydd y rhaglen yn ategu cyfle arddangos Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cymru yng Nghaeredin.

Gŵyl Ymylol Caeredin yw'r ŵyl gelfyddydol fwyaf yn y byd. Mae Cymru yng Nghaeredin yn arddangosfa sy'n hyrwyddo ein cynnyrch gorau o fyd y theatr, dawns a syrcas.

Mae gan Gymru gynnyrch artistig o safon ac mae ei apêl yn fyd-eang. Mae **Hadu'r Dyfodol** yn rhoi'r cyfle i'n hartistiaid sy'n datblygu gwaith a heb fynd i'r Ŵyl Ymylol i gyflawni gwaith i'w harddangos yno yn y dyfodol.

Ein Cynllun Corfforaethol, Er Budd Pawb, sy'n ysbrydoli Cymru yng Nghaeredin a bydd hefyd yn dylanwadu ar ein dewis o bobl ar gyfer **Hadu'r Dyfodol.**

Mae llais unigolion yn bwysig inni. Rydym am gadw amrywiaeth a chydraddoldeb wrth wraidd ein gwaith. Rydym hefyd yn ymrwymedig i ragoriaeth a chelfyddyd ddewr a phryfoclyd.

Deallwn pa mor anodd yw creu gwaith i'r Ŵyl gan ymbaratoi'n ddigonol a mesur eich parodrwydd i arddangos a nodi eich marchnadoedd rhyngwladol. Bydd **Hadu'r Dyfodol** yn cynnig pecyn gwybodaeth a chyfleoedd i rwydweithio a gweld gwaith o safon.

I gael y rhaglen orau bosibl, cydweithiwn â'n partneriaid: Cymdeithas Gŵyl Ymylol Caeredin, y Cyngor Prydeinig a phartneriaid rhyngwladol eraill.

I ymgeisio i'r rhaglen, anfonwch gynnig a rhesymeg gref sy'n esbonio pam y dylem eich dewis.

## Meini prawf dewis

### Rhaid bod gennych:

1. Darn o waith rydych wrthi'n ei ddatblygu yr hoffech fynd ag ef i Ŵyl Ymylol Caeredin yn y blynyddoedd nesaf. Trafodwn gyda'n partneriaid i weld a fydd yn bosibl arddangos gwaith datblygol ond nid yw hynny'n rhan bendant o'r rhaglen.

2. Hanes da o lwyddo yn eich maes a pharodrwydd i ystyried mynd â gwaith i'r Ŵyl ac yn bellach.

### Rhaid ichi allu:

3. Disgrifio eich uchelgais rhyngwladol. Mae'n bosibl na wyddech lawer am weithio'n rhyngwladol. Ond hoffem glywed pa ymarfer rhyngwladol sydd wedi eich ysbrydoli ac os oes gennych unrhyw gysylltiadau rhyngwladol yn barod.

4. Nodi gyda pha bethau yr hoffech gael cefnogaeth. Gallai'r rhain fod: rwydweithio, datblygu a dangos gwaith, meithrin rhaglenwyr, cynrychiolwyr a rhwydweithiau rhyngwladol.

Arian cyfyngedig sydd gan y rhaglen i gefnogi grŵp o artistiaid i ymuno â ni yn ystod yr wythnos arddangos, 2**2–26 Awst 2022.** Rhaid ichi fod ar gael am y cyfnod. Bydd gweithdy cyn yr ŵyl yn cymryd lle diwedd **Gorffennaf 2022.**

Y Cyngor fydd yn talu am eich llety am yr wythnos a chynnig grant o £900 i dalu am deithio, 4/5 per diem o £250 (ar y mwyaf) a thocynnau i rai perfformiadau. Cewch wybod am amodau eraill y grant wrth ei gael.

**5pm ddydd Mercher 8 Mehefin 2022** yw'r dyddiad cau ymgeisio.

Bydd panel o'n staff a'n cydweithwyr yn ystyried eich cynnig. Cysylltwn erbyn **dydd Iau, 30 Mehefin 2022** gyda'n penderfyniad.

Rhan o'r rhaglen fydd y rheidrwydd ichi werthuso eich ymweliad â'r ŵyl gan nodi gwersi a ddysgoch, meddyliau a gawsoch a chasgliadau y daethoch iddynt.

Gofynnwn hefyd am fanylion eich costau terfynol. Cewch dempled ichi nodi'r rhain ar ôl ichi gael eich derbyn.

## Pwy all ymgeisio?

Cwmnïau cynhyrchu a gweithwyr creadigol. Rhaid ichi allu profi bod eich cwmni'n gweithio neu'ch ymarfer yn digwydd yng Nghymru neu eich bod wedi gwneud gwaith helaeth yma.

### Rhaid bod gennych:

1. Hanes o lwyddo i gynnal gweithgarwch celfyddydol i gynulleidfaoedd neu gyfranogwyr.

2. Polisi Cyfle Cyfartal sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac sydd wedi'i adolygu gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd diwethaf. Os ydych yn weithiwr creadigol, rhaid dangos bod gennych ddealltwriaeth dda o Gyfle Cyfartal a'ch bod yn cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eich ymarfer.

3. Cyfrif banc yn enw eich sefydliad y mae'n rhaid i o leiaf ddau berson awdurdodi ei drafodion. Os ydych yn weithiwr creadigol, cyfrif banc yn eich enw cyfreithiol. Am ragor o wybodaeth am gyfrifon banc i sefydliadau cliciwch yma ac am gyfrifon i unigolion cliciwch yma

4. Os ydych yn ymarferydd creadigol, rhaid ichi fod dros 18 oed ac yn byw yng Nghymru neu wedi gweithio'n helaeth yma.

Ni allwch ymgeisio os ydych wedi methu ag anrhydeddu unrhyw gytundeb ariannol â ni.

Rhaid ichi gadarnhau eich bod chi neu fod eich sefydliad yn diwallu'r gofynion cymhwysedd wrth ymgeisio ar-lein.

## Sut i ymgeisio

Cyflwynwch ein ffurflen gais ar-lein. Mae'r cwestiynau i'w gweld yn yr adran Pa gwestiynau fydd?

Rhaid hefyd uwchlwytho cyllideb sy'n nodi eich costau teithio a sawl per diem a thocyn sioe sydd eu hangen.

## Hygyrchedd

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd a hoffech ymgeisio, gallwn eich cefnogi. Cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth: grantiau@celf.cymru i drafod eich anghenion.

## Pa gwestiynau fydd?

1. Pethau i’w gwirio cyn ymgeisio.
   Gwybodaeth gychwynnol a rhestr wirio cyn ymgeisio.

2. Cysylltu â chi.
   Y person y dylem gysylltu ag ef am y cais, gan gynnwys ei ddewis iaith a gwybodaeth cyfrif banc.

3. Y prosiect.
   Prif wybodaeth eich prosiect, gan gynnwys ei deitl, ei ddyddiad dechrau a gorffen a gwybodaeth fras am eich cyllideb gan gynnwys costau cymorth hygyrchedd.

4. Y cynnig.
   Yn y blwch cyntaf, ysgrifennwch grynodeb byr o’ch cynnig. Efallai y defnyddiwn y wybodaeth mewn cyhoeddusrwydd am eich prosiect. (480 nod ar y mwyaf – gan gynnwys pob gwagle). Yn yr ail flwch, ymatebwch i’r 4 pwynt bwled ar dudalennau 2 a 3 uchod. (3,000 nod ar y mwyaf – gan gynnwys pob gwagle)

5. Celfyddyd.
   Gwybodaeth am y celfyddydau a fydd yn rhan o’ch prosiect.

6. Math o weithgarwch.
   Gwybodaeth am y math o weithgarwch a fydd yn rhan o’ch prosiect.

7. Targedau.
   Gwybodaeth am dargedau arfaethedig eich prosiect, gan gynnwys nifer yr arddangosfeydd, y perfformiadau, y gweithdai a’r cynulleidfaoedd/mynychwyr.

8. Iaith.
   Yr effaith a gaiff eich prosiect ar y Gymraeg:
   Cadarnhaol Negyddol Niwtral

9. Lleoliad.
   Ble bydd eich prosiect yn digwydd?

10. Cydraddoldeb.
    Gwybodaeth monitro cydraddoldeb ar gyfer eich prosiect.

11. Adolygu eich cais.
    Gwelwch bob rhan o’ch cais yma. Gwiriwch bopeth a’i newid os oes angen.

12. Gwirio cyn cyflwyno.
    Gofal: ar ôl ichi bwyso’r botwm ‘nesaf’, ni chewch newid unrhyw beth yn yr adrannau blaenorol. Gallwch weld crynodeb o’r wybodaeth yma. I newid unrhyw beth, pwyswch y botwm ‘blaenorol’ ar waelod y tudalen i ddychwelyd i’r tab Adolygu.

13. Dogfennau ategol.
    Uwchlwythwch eich cyllideb sy'n nodi eich costau teithio a sawl per diem a thocyn sioe sydd eu hangen. Os bydd modd cymryd gwaith datblygol i'r ŵyl, efallai y gofynnwn am gyllideb ddiwygiedig. Gallwch roi eich cyllideb ar ffurf Word, Excel neu PDF.

14. Datganiad a chyflwyno eich cais.
    Darllenwch y datganiad a chyflwynwch eich cais.

## Angen cysylltu?

I gael cyngor am ddatblygu eich cynnig, cysylltwch â maggie.dunning@celf.cymru

Os cewch anawsterau gyda'r ffurflen gais neu'r porth, cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth: grantiau@celf.cymru

## Ffyrdd o gysylltu

E-bost grantiau@celf.cymru

Ffôn 03301 242733 (cyfraddau lleol)

9am-5pm ddydd Llun hyd ddydd Iau

9am-4.30pm ddydd Gwener

Trydar: @Celf_Cymru

Gwefan: celf.cymru

Instagram:

Dyma ffyrdd eraill o gysylltu â ni